

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 29/04/2019 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

Thomas Victor Jones
Iwan Hughes

Evan Glyn Thomas
William Penri Jones

John Brinley Jones
Rhian Hughes-Jones
(Clerc)

William Roger Jones

1. Ymddiheuriadau

Greta Hughes, Barbra Warren a Clair Russell Griffiths

Gan fod y cadeirydd wedi ymddiheuro ac nid oes is-gadeirydd wedi ei ethol mae'r Clerc yn cychwyn y cyfarfod yn gofyn i'r aelodau os oes cynnig i gadeirio. Mae Penri Jones yn cynnig (eilydd: Iwan Hughes) I Victor Jones gadeirio. Mae'r cynnig yn llwyddiannus.

Wrth gymryd y gadair mae Victor Jones yn nodi bod y cyn Clerc John Harris wedi colli ei frwydr gyda'i salwch. Mae'n nodi bod John Harris wedi bod yn Clerc am 49 o flynyddoedd a bod ein dyled yn fawr iddo, ni fuasai ein pentref mor llewyrchus heb ei waith caled cyson. Mae'r pwyllgor yn estyn cydymdeimlad i'r teulu.

Mae John Brinley Jones eisiau nodi ei fod yn siomedig iawn nad yw'r Cyngor Cymuned wedi llythyru John Harris i ymddiheuro am ei chyhuddiad. Mae Victor Jones yn nodi bod y Cyngor Cymuned wedi llythyru John Harris yw diolch am ei waith dros y blynyddoedd ac nad yw'r Cyngor Cymuned yn gallu mynd a'r materion eraill yn bellach gan nad oedd y gwyn wedi eu cofrestru yn swyddogol.

Mae Victor Jones yn nodi bod aelodau'r pwyllgor wedi bod yn mynd trwy ddogfennau hanesyddol y Cyngor Cymuned. Mae yna nifer o focsys sydd angen eu didoli. Mae'r Clerc yn nodi ei bod yn barodi iawn i wneud y gwaith yma ac yn ddiolchgar i'r aelodau am eu gwaith.

2. Datgan Buddiant Ariannol neu Personol

Iwan Hughes – Cofebion perthynas agos wedi gyrru deiseb i'r pwyllgor.

3. Cofnodion 25/03/2019

Derbyn Cofnodion 25/03/2019 yn gywir gyda man newid ac wedi eu arwyddo. Clerc wedi gwneud camgymeriad wrth rhestu Datgan Buddiant Ariannol neu Personol.

4. Unrhyw Fater Brys

1. Mae'r Clerc wedi derbyn anfonebau gan Dwr Cymru gyda dŵr y fynwent £99.75 a Mr D Russell am waith amrywiol £2230.00. Mae'r pwyllgor yn gytûn i wneud y taliadau yma.
2. Mae Victor a Jean Price sydd yn gofalu am y fynwent wedi cysylltu yn nodi nad ydynt wedi derbyn taliad am flwyddyn 2018-2019. Mae'r Clerc yn mynd i gysylltu er gwneud trefniadau.
3. Mae'r Clerc yn nodi nad yw byth wedi derbyn cyfraniad yr Ymddieiedolaeth Genedlaethol tuag at y toiledau.
4. Mae'r aelodau yn gytûn i newid dyddiad cyfarfod mis Mai I 20/05/2019 gan fod yr 27/05/2019 yn disgyn yn wyliau Sulgwyn.

5. Etholiadau

Mae'r Clerc yn cadarnhau nad oes unrhyw gais am etholiad wedi ei dderbyn gan Adran Etholiadau Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r sedd wag sydd ar y Cyngor Cymuned.

Felly mae'r Clerc wedi trefnu rhybuddion o sedd wag ac wedi eu darparu yn ystod y cyfarfod yw rhoi i fynnu yn y pentref gyda dyddiad cau o 26/05/2019. Mae'r Clerc yn nodi eu bod wedi derbyn gohebiaeth gan Anne Rowe sydd yn anfodlon a'r trefniadau yn ystod y cyfethol diwethaf. Mae'r Clerc wedi cysylltu i ymateb ac wedi nodi bod

Clerc – Rhian Hughes-Jones • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •

07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA

Cadeirydd – Greta Hughes • Gretahughes58@gmail.com • 01758 740 009 •

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 29/04/2019 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

sedd wag eto ac yn ei gwahodd i drïo eto. Mae'r Clerc hefyd wedi derbyn cynnig gan Andrew Parry, eto mae'r Clerc wedi ymateb yn gyrru copi o'r hysbyseb.

6. Cae Chwarae

Mae'r Clerc wedi gwneud ymholiadau i brisiau rhoi ffens gyffredin ar hyd cefn y cae chwarae fel mater o frys. Nid oes unrhyw ymateb wedi ei dderbyn.

Mae Penri Jones yn cynnig (eilydd; Iwan Hughes) bod y Cyngor Cymuned yn cysylltu gydag Iwan ** I ofyn iddo am bris fel mater o frys er gwneud y gwaith cyn gynted â phosib. Mae'r cynnig yn llwyddiannus.

Bydd Evan Glyn Thomas yn cysylltu i gael pris a'r Clerc yn gyrru gwybodaeth ymlaen. Pan mae Pris wedi ei dderbyn bydd y Clerc yn ei ddsbarthu ar e-bost i'r aelodau i gyd cyn gynted â phosib i wneud penderfyniad.

Nid yw Brbara Warren yn bresennol felly gohiriwyd diweddariad ar Bwyllgor Cae Chwarae.

7. Y Fynwent

Mae'r Clerc wedi bod yn ymchwilio i gostau claddu yn fynwent Llanbedrog. Bu i'r Clerc yrru amserlen ffioedd newydd, rheolau'r fynwent a ffurflen claddu i'r Cyngor Cymuned er eu trafod yn y cyfarfod. Mae'r Aelodau yn gwneud newidiadau bychain i'r ffioedd; Gweler **Atodiad A**.

Mae Iwan Hughes yn cynnig (eilydd; John Brinley Jones) I dderbyn y ffurflen Awdurdod Claddu a Rheolau'r fynwent. Mae'r cynnig yn llwyddiannus.

Mae'r fynwent yn prysur lenwi ac mae'n amserol i baratoi i symud i'r fynwent newydd. Bu i'r Clerc gysylltu gyda Bryn Martin i sicrhau lleoliad y gweithredoedd, nid yw wedi cael ymateb. Mae Victor Jones yn nodi ei fod wedi ffeindio nifer o ddogfennau yn ymwneud a'r fynwent dra'r mynd trwy ddogfennau hanesyddol y Cyngor Cymuned. Mae wedi ei throsglwyddo i'r Clerc ar ddechrau'r cyfarfod. Bydd y Clerc yn edrych i mewn i'r dogfennau yma ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor.

Bydd angen gwneud llawer o waith yn y fynwent newydd cyn y gellir ddechrau claddu yno.

8. Cofebion

Mae'r Clerc wedi llythyru Llanbedrog Headland Co, Cyngor Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru eto ond nid wedi derbyn ymateb. Bydd y Clerc yn dilyn hyn i fynnu wrth gysylltu gyda'r awdurdodau yma eto. Mae Victor Jones yn nodi ei fod wedi ffeindio gwybodaeth am dir comin Tir y Cwmwd a bydd y Clerc yn edrych i mewn i hyn hefyd.

Mae'r Cyngor Cymuned wedi derbyn deiseb o 6 o enwau yn nodi nad ydynt yn hapus gyda'r cofebion ar Dir y Cwmwd. a bydd y Clerc yn gyrru copi i'r awdurdodau hefyd yn ogystal â llythyru'r enw cyntaf ar y ddeiseb yn nodi'r gweithrediad yma.

9. Awdit

Mae'r Cyngor Cymuned wedi derbyn ffurflenni archwilio gan y BDO. Mae'r Clerc wedi dechrau ar y gwaith yma ac yn gobeithio cael y wybodaeth i gyd yn barod at gyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned. Mae hyn yn ddibynnol ar y banc hefyd gan nad yw byth wedi derbyn unrhyw ohebiaeth.

Ceisiadau Cynllunio

C19/0247/38/LL

Addasiadau allanol a balconi

Hollies, Llanbedrog, Pwllheli

Gwrthwynebu; ar sail gor ddatblygiad o'r safle ac yn tynnu sylw oddi wrth yr ardal hanesyddol. Mae'n agos i'r eglwys ac yn ddyluniad sydd yn sefyll allan. Mae John Brinley Jones yn gofyn i'r Clerc ymchwilio i'r cais blaenorol ar y safle gan nad yw sylwadau'r Cyngor Cymuned wedi ei gofnodi yn adroddiad y Swyddog Cynllunio.

Clerc – Rhian Hughes-Jones • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •

07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA

Cadeirydd – Greta Hughes • Gretahughes58@gmail.com • 01758 740 009 •

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 29/04/2019 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

C19/0317/38/LL

Dymchwel estyniad deulawr presennol ac adeiladu estyniad deulawr newydd gan gynyddu ei faint o 1.5 medr ynghyd ac adeiladu estyniad unllawr.

Gorffwysfa, Ffordd Pedrog, Llanbedrog.

Dim Gwrthwynebiad

Taliadau wedi eu cymeradwyo

Cyflog y cleric - Rhian Hughes-Jones

Ebrill 2019 £333.33 **£333.33**

Rhodd - Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019 **£50.00**

Rhodd - Plas Carmel, Anelog – Adfer hen adeilad capel unigryw. **£20.00**

Rhodd - Ambiwylans Awyr **£50.00**

Rhodd - Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro 2019 **£25.00**

Taliadau wedi eu Gwneud

Came & Co – Yswyriant **£819.84**

Taliadau wedi eu Derbynn

H O Davies - Angladd **£90.00**

Gohebiaeth

1. **Cyngor Cymuned Llannor** - Dogfen Diweddariad Cyngor Cymuned a Thref Rhagfyr 2018
2. **Chwarae Cymru** - Hwyl yn y dwnjwn - copïau rhad ac am ddim ar gael
3. **Cyngor Gwynedd** - Credyd Cynhwysol
4. **Cynulliad Cenedlaethol Cymru** - Ymgynghoriad: Trafodaeth o'r cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
5. **Priffyrdd** - Rhybudd Cau Ffordd gyferbyn a Ty'r Ysgol, Llanbedrog, Pwllheli ar y 4ydd o Ebrill, 2019
6. **Swyddog Datblygu Cymunedol - cynghorau tref a chymuned** – nodyn holi.
7. **Un Llais Cymru** – rhestr hyfforddiat
8. **Seafarers** - hedfanwch y sosban goch ar gyfer diwrnod y llynges fasnachol
9. **Arloesi Gwynedd** - Newyddlen i'r Rhanddeiliaid
10. **Gwasanaeth Cynllunio** - Arolwg cynghorau tref a chymuned Cymdeithas Prif Swyddogion Cynllunio Cymru yn fyw
11. **Un Llais Cymru** - Papur Pleidleisio ar gyfer Fwrdd Cyfeiriol Budd-ddeiliaid Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr

Cais am gyfraniad

1. **O Ddrws i Ddrws** - Cais i ariannu cynllun i ddanfôn pobl i'r feddygfa

**Clerc – Rhian Hughes-Jones • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •
07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA
Cadeirydd – Greta Hughes • Gretahughes58@gmail.com • 01758 740 009 •**

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 29/04/2019 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

Atodiad A

Mynwentydd Llanbedrog - Ffioedd Claddu **Llanbedrog Cemeteries - Burial Fees**

Penderfynwyd mewn cyfarfod o'r cyngor a gynhaliwyd ar y 29/04/2019, a thrwy awdurdod Gorchmynion Mynwentydd Lleol 1974 (Rhif 826); Cynnal 12(1) y codi'r ffioedd a rhestrir isod am gladdedigaethau yn y Mynwentydd Uchod.
It was decided at a meeting of the council held on 29/04/2019, and by the local Cemetery Orders authority 1974 (No. 826); section 12 (1) to charge the following fees listed below for burials in the Above Cemeteries.

	Trigolion y Gymuned / Residents of the Community
Ffi i gladdu oedolion / Burial fee for adults Plant o dan 18 oed / Burial Fee for under 18's	£145.00 -
Ffi i ail agor bedd / Fee to re-open plot Plant o dan 18 oed / Burial Fee for under 18's	£145.00 -
Ffi i gladdu llwch corf losgiad / Burial fee for cremation ashes	£145.00 -
Ffi i ail agor bedd i lwch corf losgiad / Fee to re-open plot for cremation ashes Plant o dan 18 oed / Burial Fee for under 18's	£145.00 -
Hawl i godi carreg fedd / Right to erect a head stone	£140.00

Mae'r costau yn sefydlog o ddechrau 01/04/2019 hyd ddiwedd 31/03/2020, os na newidir hwn trwy orchymyn y Cyngor. Nid yw'r ffioedd uchod yn cynnwys costau am agor bedd, Gwaith yn y bedd na chau'r bedd.
Costs are set from the beginning of 01/04/2019 until the end of 31/03/2020, if this is not changed by order of the Council. The above fees do not include costs for opening a grave, Work at the grave or closing the grave.

Trwy orchymyn y Cyngor / By order of the CouncilClerc / Clerk

Clerc – Rhian Hughes-Jones • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •
07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA
Cadeirydd – Greta Hughes • Gretahughes58@gmail.com • 01758 740 009 •